PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 157 | Rhif 3 | Ionawr 18, 2024 | 50c.




## CWM: Cynhadledd Ieuenctid a Hiliaeth

Ym mis Rhagfyr, ces gyfle i gynrychioli Undeb yr Annibynwyr Cymraeg mewn cynhadledd o’r enw ‘Youth and Racism’ a gynhaliwyd gan y Council for World Mission yn Llundain.

Roedd y profiad yn un diddorol a dweud y lleiaf, yn enwedig o ystyried gwreiddiau’r Council for World Mission, hynny yw bod CWM wedi tyfu allan o’r London Missionary Society yn y 19eg ganrif. Mae’r hanes o gysylltiad Cristnogaeth â’r traddodiad cryf o genhadu wedi creu deuoliaeth anghysurus yn ein dealltwriaeth ni o Gristnogaeth gan fod y cenhadon o’r 18fed, 19eg a’r 20fed ganrif wedi chwarae rhan bwysig mewn cefnogi a sefydlu’r fframweithiau a arweiniodd at gaethwasiaeth a gwladychiaeth.



### Cwestiynau

Roedd gen i gwestiynau rhif y gwlith cyn cyrraedd y gynhadledd felly. Roedd fy nghwestiynau i’n troi o gwmpas y cyd-destun Prydeinig, roeddwn i’n meddwl am Genhedlaeth y *Windrush* a’r llong gyntaf i lanio ym Mhrydain, sef yr *Empire Windrush*, yn 1948. Roeddwn hefyd yn meddwl am bethau mwy heriol fel, ‘A oes yna ddadansoddiadau newydd o’r eglwys a Christnogaeth sydd wedi’u gwreiddio yn niwylliannau y bobl sydd yn blant i’r rhai a ddaeth i Brydain o genhedlaeth y *Windrush?*’ Ac, ‘A oes yna angen i dynnu i ffwrdd o’r eglwys sy’n dal i gynrychioli hanes o ormes?’

### Cyd-destun cymdeithasol?

Mi fuaswn i wedi hoffi petai’r gynhadledd wedi edrych ar y cyd-destun cymdeithasol a ches fy siomi i raddau gan y ffordd y deliodd y gynhadledd â’r pynciau deuol o hiliaeth a chrefydd, gan iddynt ganolbwyntio’n fwy ar ffydd unigol a sut i fynegi agwedd gwrth-hiliol yn bersonol yn hytrach nag ymladd hiliaeth a rhagfarn tu fewn a thu allan i’w heglwysi, gyda’r

*parhad ar dudalen 2*

## Hwb i’r galon

Wrth siarad â gwahanol bobl, awgrymwyd i mi dro ar ôl tro y byddai cyfres o sesiynau’n cyflwyno agweddau sylfaenol o fywyd eglwysig yn cael ei groesawu’n fawr. Ein gobaith yw bod y sesiynau hyn yn cynnig cyfle i ganfod sylfeini Beiblaidd i’r pwnc, yn ogystal â chymhwyso’r cyfan mewn ffyrdd perthnasol ac ymarferol i fywyd ein heglwysi heddiw.

Roedd creu’r hybiau, a defnyddio’r dull hwn o hyfforddi yn torri tir newydd i ni fel Undeb. Roeddwn yn sicr fod cynnig cyfle i drafod a rhannu, a hynny wyneb yn wyneb, yn allweddol i’r sesiynau hyn, ond ar yr un pryd, yn ymwybodol nad yw’r ‘man canolog sydd o fewn cyrraedd pawb’ yn bodoli mewn gwirionedd i allu cynnal y sesiynau yno. Yr



ateb naturiol, wedi i ni ganfod posibiliadau technoleg a chyfarfodydd rhithiol yn ystod cyfnod y pandemig, oedd croesawu’r cyfle i fentro ac arbrofi gyda’r dechnoleg, a chreu’r hybiau.

Mae’r diddordeb a’r brwdfrydedd sydd wedi codi yn sgil cyhoeddi rhaglen y sesiynau hyn yn anhygoel, ac mae’r ffaith fod oddeutu 70 wedi mynychu’r sesiwn gyntaf yn profi hynny. Yn ogystal, mae sawl un wedi cysylltu i ddweud eu bod wedi bod yn ystyried dilyn hyfforddiant i gymhwyso fel pregethwyr cynorthwyol cydnabyddedig, ac yn gofyn a fyddai’r sesiynnau hyn yn sylfaen iddynt cyn cychwyn unrhyw hyfforddiant pellach.

Heb os, mae’r sesiynau hyn yn ymddangos fel eu bod wedi creu awydd a brwdfrydedd newydd, ac mae hynny’n beth gwych. Does gen i ddim amheuaeth fod Duw ar waith yn ein plith, ac rwy’n edrych ymlaen at weld sut fydd Duw yn parhau i weithio yn ein plith.

**Carwyn Siddall**

# CWM: Cynhadledd Ieuenctid a Hiliaeth – *parhad*

syniad o greu symudiad cenedlaethol ehangach. Teimlais y byddai wedi bod yn dda fframio'r pynciau o hiliaeth a ffydd o fewn y cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol ac y gallai'r sgwrs fod wedi bod yn fwy ystyrlon ac yn cyffwrdd â bywyd y tu allan i ddrysau'n heglwysi.

### Deall hiliaeth

Ond roedd pethau positif am y gynhadledd hefyd. Roeddem ni wedi gorfod delio gyda phynciau anghyfforddus, yn benodol i'r ddau ohonom oedd yn cynrychioli'r Undeb, gan mai ni'n dau oedd yr unig ddau berson gwyn o dras Brydeinig yno. Fe agorodd y gynhadledd ddrysau o ddealltwriaeth i ni'n dau ynghylch deall hiliaeth yn well yn ein heglwysi, ac i adnabod bod ein profiad ni o fod yn Gristnogion Cymraeg anghydffurfiol yn un eithaf unffurf a homogenaidd, gyda'r rhan fwyaf o'r bobl yn ein heglwysi ni'n Gymry Cymraeg o'r gymuned leol. Roedd deall bod y Gristnogaeth sydd yn cael ei hymarfer mewn eglwysi 'anghydffurfiol' eraill, yn *non-conformist* go iawn, gyda phrofiadau hynod wahanol i'w gilydd hyd yn oed mewn ardaloedd cyfagos ac o fewn yr un eglwys, yn agoriad llygad.

### Sgwrs ehangach

Yn wir roedd yna sgwrs fwy ac ehangach i'w chael, ac fe wnaeth Dr Sindiso Jele, o Dde Affrica, ein harwain drwy gyflwyniad ar effaith hiliaeth ar gyfandir Affrica, gan sôn am sgwrs grefyddol y dyn gwyn a sut yr effeithiodd hynny ar y gormes, bod dadansoddiadau o'r Beibl wedi cyfrannu tuag at gefnogi'r safbwynt fod pobl Ddu yn gynhenid israddol ac angen eu harwain at ryw fath o oleuni.

### Datganiad Boksburg

Wrth i'r gynhadledd fynd yn ei blaen, deallais fod modd cyd-destunoli'r Cristnogol a'r crefyddol o fewn i fframwaith cymdeithasol, ymarferol hefyd. Cawsom gyfle i weld y Boksburg Declaration a ddrafftiwyd mewn cynhadledd yn Ne Affrica yn 2023. Dogfen yw hon gyda'r bwriad o gadarnhau ymrwymiad bobl ifanc Affrica i ymladd hiliaeth yn eu cymunedau lleol gyda'r gobaith o weld newid dros amser. Dyma enghraifft o'r eglwys yn helpu mewn cymunedau y tu hwnt i'w heglwysi, ac yn edrych i newid strwythurau niweidiol cymdeithasol yn hytrach: 'We the African youth pledge to go beyond the four walls of the church and build the society as a whole because racism is a community story and not just a church story.'

### Profiad gwerthfawr

Bu mynd i'r gynhadledd yn brofiad positif, ac rwy'n ddiolchgar i bawb a gyfrannodd i greu profiad cyfoes a chyfeillgar. Ces gyfle i ymwneud â phobl o bob math o gefndir, a hefyd gael y cyfle i siarad am ein profiadau ni fel Cymry a'u gosod ochr yn ochr â straeon eraill, er mwyn dod i ddeall ein profiad ni yn well o fewn cyd-destun rhyngwladol. Roedd hi'n gynhadledd gyda ffocws ar gyfrannu a chroesawu beth bynnag oedd eich barn, ac roedd yn fforwm hefyd i feddwl ac ystyried barn eraill.

Mi faswn i'n argymell y profiad hwn fel un gwerthfawr i unrhyw un sydd am drafod pynciau rhyngwladol sydd efallai y tu allan i'r sgyrsiau dyddiol yr ydym ni'n dueddol o'u cael yng Nghymru, ac eisiau meddwl am bethau'n ddwysach gyda chefnogaeth a hefyd gyda mewnbwn gan bobol eraill. Wrth feddwl y bydd cynhadledd arall yn digwydd yn Durban flwyddyn nesaf, ystyriwch fynd, efallai mai dyma fydd eich cyfle mawr chi.

**Caspar Rolant**

✦ Cyfres Newydd ✦ Cyfle Newydd ✦ Ffurf Newydd ✦

Cyfle gwych i ymuno mewn cyfres o chwe sesiwn fydd yn archwilio gwahanol agweddau o fywyd eglwysig.

✦ Gweddïo ✦ Arwain Addoliad ✦ Pregethu ✦ Beth yw Eglwys ✦
✦ Gwaith Plant ac Ieuenctid ✦ Gwedd Ddigidol Eglwys ✦

**Dyddiadau:**
08/01 22/01 05/02 19/02 04/03 18/03

**Amser:**
7:00 - 9:00 o'r gloch yr hwyr.

**Lleoliad:**
Bydd modd ymuno yn y sesiynau hyn drwy fynychu eich Hwb Hyfforddi lleol. Manylion llawn pob lleoliad ar y daflen wybodaeth.



Awydd ymuno? Croeso cynnes i bawb!

Trefnir y sesiynau hyn fel rhan o gynllun Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | Gwybodaeth pellach: carwyn@annibynwyr.cymru

| Dyddiad | Testun | Arweinydd |
|---|---|---|
| Ionawr 22 | Arwain Addoliad | Parchedig Beti-Wyn James a'r Parchedig Euron Hughes |
| Chwefror 5 | Pregethu | Parchedig Robin Samuel |
| Chwefror 19 | Beth yw Eglwys | Parchedig Carwyn Siddall |
| Mawrth 4 | Gwaith Plant ac Ieuenctid | Parchedig Owain Davies |
| Mawrth 18 | Gwedd Ddigidol Eglwys | Rhodri Darcy |

**Cynhelir pob sesiwn rhwng 7.00 a 9.00 o'r gloch yr hwyr**

## PROSIECT DENMAN 2024

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema:

### Ein hysgol Sul: 'Dysgu am Iesu.'

Roedd Iesu'n dysgu'r bobl am Dduw drwy gyfrwng damhegion. Sut ydych chi'n dysgu am Iesu Grist a'i neges?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru a'r cynnyrch celf at Elinor yn Nhŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ erbyn dydd Iau, 13 Mehefin 2024.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynyddol yn Nantgarw ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru

Yr Adran Gydenwadol

IONAWR 18 2024 RHIF 151

# Cofio Arthur Bowen Davies – Cymro Americanaidd ac artist blaengar ym maes celf fodern


Mae'r rhifyn cyfredol o'r *Traethodydd* yn un arbennig o liwgar, a'i brif erthygl yn trafod, gyda thoreth o luniau deniadol, fywyd a gwaith yr artist o Gymro Americanaidd Arthur Bowen Davies. M. Wynn Thomas sy'n ein tywys ni trwy ei fywyd, o'i enedigaeth i dad o Gymro Cymraeg yn ninas Utica, Talaith Efrog Newydd, ei hyfforddiant artistig yn Chicago a'i ysbrydoli gan ehangder golygfeydd 'y Gorllewin Gwyllt'. Rhoddir sylw i'w ymweliadau â gwledydd cyfandir Ewrop yn perffeithio'i grefft ac yn chwilio am ysbrydoliaeth, ei ymwrthodiad â realaeth yn narluniau ffasiynol y cyfnod a'i dderbyn maes o law fel un o artistiaid arbrofol mwyaf llwyddiannus ei genhedlaeth. Cysylltir ei enw yn annatod ag 'Arddangosfa'r Arfdy' – *The International Exhibition of Modern Art* – a gynhaliwyd mewn ystordy arfau gwag yn Efrog Newydd yn 1913 ac a gyflwynodd i gynulleidfa or-geidwadol a sychlyd braidd gynnwrf artistiaid Ewropeaidd fel Picasso, Cezanne, Gaugin ac eraill oedd eisoes wedi gwneud eu henw fel peintwyr blaengar ac athrylithgar. Yn ogystal ag adrodd y stori, mae'r darluniau niferus yn erthygl Wynn Thomas yn dangos medrusrwydd hynod Arthur B. Davies a natur ei ddawn. Mae'n gorffen drwy danlinellu ei gysylltiadau Cymreig: 'Er nad anghofiodd Davies Gymru, y gwir yw bod Cymru wedi ei lwyr anghofio ef'. Darllenwch yr erthygl ddifyr a gwybodus hon i wybod amdano ac i sicrhau na fydd yn anhysbys mwyach i ni fel Cymry.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r awdur ifanc Sioned Spencer yn traethu'n llawn ac yn ddiddorol am flynyddoedd cynnar *Y Traethodydd*, cylchgrawn hynaf Cymru, ac yn esbonio'r weledigaeth oedd gan Lewis Edwards, y golygydd cyntaf, ynghylch gwareiddio'i gyd-Gymry a lledu eu gorwelion diwylliannol. Hefyd, ceir gan y golygydd presennol ail ran ei gyfres ar syniadaeth Jürgen Moltmann, y diwinydd o'r Almaen y bu ei gyfrolau pwysig *Diwinyddiaeth Gobaith* ac *Y Duw Croeshoeliedig* mor allweddol yn natblygiad crefyddol y 1970au a'r 1980au.

Yn yr adran adolygiadol, lluniodd Derec Llwyd Morgan werthfawrogiad cynnes o *Penrhaith ein Heniaith Ni*, y gyfrol deyrnged ddiweddar i'w gyfaill a'i gyfoeswr, yr Athro Gruffydd Aled Williams, tra mae Gruffydd Aled Williams yntau'n trin yn olau iawn gynnwys *Gofal ein Gwinllan*, cyfrol sy'n trafod cyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'n llên a'n diwylliant. Beirdd y rhifyn yw Derec Llwyd Morgan a Mary Burdett-Jones.

Mae hwn yn rhifyn hynod liwgar a chyfoethog, a bydd y cwbl ohono yn ddiau at ddant ein darllenwyr.

Yn unol â'n harfer, anogwn bawb nid yn unig i ddarllen y rhifyn hwn ond i'w brynu




a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Joanna Thomas-Wright (joanna.thomas-wright@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

# Sefydlu gofalaeth newydd yng Nghaerfyrddin a'r cyffiniau

Daeth gofalaeth eglwysi Annibynnol Pen-y-graig a Rama i ben ym mis Ionawr 2022 gyda marwolaeth y Parch. Meirion Sewell fel Gweinidog rhan-amser. Fel Cadeirydd yr Ofalaeth dechreuais wneud ymholiadau gydag eglwysi Annibynnol yr ardal ar gyrion gorllewinol tref Caerfyrddin ac yn y dref ei hun, a darganfod y potensial i gydweithio i'r dyfodol. Roedd dylanwad y pandemig wedi gadael ei ôl ar ein heglwysi a nifer yr aelodau, a throi ein golygon at y dref a wnaethpwyd er mwyn ceisio creu gofalaeth newydd.

Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol o'r ofalaeth newydd o bum eglwys Annibynnol yng Nghapel Smyrna, Llan-gain, ym mis Chwefror 2022. Yn y cyfarfod hwn cytunwyd i wahodd y Tabernacl, eglwys ar gyfer y Bedyddwyr yn y dref, i ymuno â ni. Roedd y Tabernacl mewn gofalaeth gyda dwy eglwys arall, ac erbyn mis Gorffennaf 2022 sefydlwyd gofalaeth newydd o saith eglwys, sef: Bethania, Talog (32 aelod yn 2023), Noddfa, Foelcwan (38), Pen-y-graig (83), Philadelphia (33), Smyrna (46) a'r Tabernacl (123), gyda chyfanswm o 354 o aelodau. Roedd cynrychiolwyr o gapel Rama (24) yn rhan o'r trafodaethau cychwynnol, gan dynnu allan yn ystod haf 2023.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr ofalaeth newydd o saith eglwys yn festri'r Tabernacl ar 11 Gorffennaf 2022. Etholwyd Geraint Roberts yn Gadeirydd, gydag Emyr James yn Ysgrifennydd, gan ffurfioli gwaith yr ofalaeth newydd o'r cychwyn. Cafwyd trafodaethau ar drefn bresennol y gwasanaethau yn sgil effaith cyfnod y pandemig; ystyriwyd modelau costau cynnal gweinidog, patrwm Suliau posibl ar gyfer saith eglwys ac awgrymwyd enwau darpar-weinidogion. Roedd yna naws hyfryd o drafod a chydweithio ymhlith y cynrychiolwyr ac ychydig o gyffro wrth sefydlu gofalaeth gydundebol lle gellir manteisio ar adnoddau, profiad a chefnogaeth undebau'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio a lluniwyd hysbysiad gyda'r bwriad o ddenu gweinidog. Cytunwyd wedyn ar drefn o gynnal cyrddau undebol ar draws yr ofalaeth ar batrwm Bethania a Noddfa oedd yn bodoli eisoes ar gyfer 2023 neu 2024. Erbyn hyn, mae pob un o'r eglwysi mewn cylch o gyrddau undebol a fydd yn sail gadarn ar gyfer dyfodol o dan arweiniad gweinidog. Mae'r Tabernacl eisoes yn rhan o batrwm cydaddoli ymhlith eglwysi tref Caerfyrddin.

Erbyn hyn mae'r eglwysi unigol yn trafod modelau ariannol i gyflogi gweinidog sy'n rhoi cymorth i'r eglwysi llai; hefyd rhoddir ystyriaeth i gytuno ar enw i'r ofalaeth newydd. Rydym yn aeddfed erbyn hyn i alw gweinidog ac mae'n gyfnod cyffrous yng nghapeli Cymraeg ardal Caerfyrddin. Gellir cael gwybodaeth bellach drwy gysylltu ag Emyr James (Tabernacl), Ysgrifennydd yr Ofalaeth newydd, ar 07896 242529, neu â Geraint Roberts (Pen-y-graig), Cadeirydd yr Ofalaeth newydd, ar 07814701079.

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Galluogwr Cenhadol (Rhan Amser)

### wedi'i leoli yn Rhosllannerchrugog a'r cyffiniau

Mae Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn dymuno penodi Galluogwr Cenhadol, gan alluogi cenhadaeth a hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yn yr iaith Gymraeg yn bennaf yn Rhosllannerchrugog a'r cyffiniau.
Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a gweithgar i ymuno â gwaith yr Henaduriaeth fel Galluogwr Cenhadol.

**Oriau:** 21 awr yr wythnos.
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
**Cyflog:** Band 22–26 ar raddfa cyflog EBC. Gall y band gynyddu hyd at 27–31, yn dibynnu ar lefel y cymwysterau a'r profiad, a bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.
**Lleoliad:** Lleolir y swydd hon yn ardal Rhosllannerchrugog ac yn gweithio o gartref.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol a Chymraeg yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â:
e-bost – Shanta.Rupalia@ebcpcw.cymru
ffôn – 07787 522904 / 02920 627465

**Dyddiad Cau: 30 Ebrill, 2024 am 4pm.**

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Arweinydd i'r Crwys a Swyddog Ymgysylltu, Bugeiliol a Thyfiant

Pwrpas a bwriad y swydd arloesol hon yw cynnig arweiniad, perthnasedd a gweledigaeth newydd i fywyd eglwys ddinesig gan esgor ar gyfleoedd newydd o gael perthynas â'r eglwys honno a'r gymdeithas ehangach. Y nod fydd meithrin y berthynas honno drwy weithio ar lefel gydenwadol a chyda sefydliadau dyngarol ac amgylcheddol eu hanian. Mae gofyn datblygu dulliau o dorri tir newydd er mwyn sicrhau tyfiant yr eglwys o blith yr aelodaeth bresennol ac o blith y rhai nad oes ganddynt brofiad o eglwysi traddodiadol.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos.
**Cytundeb:** 2 flynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
**Cyflog:** 22–26 (£25,962–£28,297 pro rata) ar raddfa cyflog EBC *neu'n uwch*, yn dibynnu ar gymwysterau a phrofiad gan gynnwys deilydd ordeiniedig i'r swydd.
Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC
**Lleoliad:** Eglwys y Crwys, Caerdydd, a byddwch yn gweithio o adref. Fodd bynnag, fe all y bydd gofyn i chi weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.


Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol yn berthnasol i'r swydd hon.


Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost –neu swyddfa.office@ebcpcw.cymru
ffôn – 02920 627465

**Dyddiad Cau: 4pm, 15 Mawrth 2024**

## Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, 18–25 Ionawr 'Dos a gwna dithau yr un modd'


Ar drothwy'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, cofiwch am yr adnoddau a baratowyd ar gyfer yr wythnos arbennig hon. Dilynwch y ddolen hon i weld yr adnoddau dwyieithog: Adnoddau ar gyfer yr wythnos weddi 2024 (ctbi.org.uk).



# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 17**
**Gweddïo gydag a thros eraill**
**Sul, 21 Ionawr**

### Gweddi
Nefol Dad, diolch am hanes Dorcas a'r modd y bu i Pedr fod yn gyfrwng yn dy law. Agor y testun hwn i ni heddiw fel ein bod yn gweld gobaith yn disodli anobaith a bywyd yn drech na marwolaeth. Amen.

### Darlleniad: Actau 9: 36–43
Adfer Dorcas

### Cyflwyniad
Bydd hanes rhyfeddol a hyfryd Pedr yn gweddïo gyda chorff marw Dorcas yn hawlio ein sylw wrth feddwl am waith yr eglwys yn gweddïo gydag eraill. Prin fod modd i ni hawlio bod pob deisyfiad o'r fath yn mynd i arwain at yr un canlyniad, ond roedd Luc am gynnwys yr hanes hwn er mwyn dangos bod rhyfeddodau felly yn digwydd yn dilyn gweddi daer. Mae'n siŵr fod yr enghreifftiau o Iesu yn adfer bywyd i'r meirw yn dod i'r cof – merch Jairus, mab y wraig weddw o Nain, a Lasarus. Roedd cyfeillion Dorcas wedi rhestru ei rhinweddau hi, fel pe bai hi'n haeddu adferiad. Nid ei gwaith oedd testun gweddi Pedr, ond ymbil ar yr Arglwydd i drugarhau ac adfer bywyd i'r corff marw.

Nodir nad oedd Pedr wedi gweddïo gyda thystion dynol yn gwrando, ond bod y weddi wedi ei hateb yn gadarnhaol ac iddo gyflwyno Dorcas yn ôl i gwmni ei chyfeillion. Deallwn i'r digwyddiad hwn fod yn fodd i arwain eraill i gredu, a hynny yn Jopa.

### Myfyrdod
Pan fyddwn yn ystyried beth y gall eglwys ei wneud mewn modd ymarferol, mae perygl i ni chwilio am gynlluniau a rhaglenni gwaith cymhleth a chostus. Bydd pwyllgorau di-ri, trefnu cynllun hyfforddiant a sicrhau llawer o adnoddau priodol. Yn hanes adfer Dorcas, ni fu cynllunio na darparu adnoddau, mwy na rhannu gweddi yn y fan a'r lle. Mae perygl i'r eglwys heddiw dybied bod angen hyfforddiant i weddïo neu gredu bod gweddïo yn waith i bobl benodol. Weithiau, bydd gweinidog yn cynnig gweddïo gyda pherson, a'r unigolyn yn teimlo'n anghysurus ac yn dewis peidio. Bydd hyn yn fwy gwir os bydd y person hwnnw yn glaf ac yn ofni bod diwedd ei daith ddaearol ar ddod. Mae rhannu gweddi yn fodd o wahodd Duw i mewn i'r sefyllfa a rhannu baich neu ysgafnhau gofid. Nid yng ngeiriad y weddi mae'r wyrth, ond yn yr ymdeimlad sicr fod Duw wrth law ac yn 'gwrando cri'. Gall pob un weddïo ac nid oes sôn fod Duw yn poeni am gywirdeb gramadeg, beth bynnag yr iaith, ond bod y weddi yn ddidwyll ac yn ddealladwy i'r cwmni sy'n gweddïo.

Dyfynnir geiriau Tennyson: 'More things are wrought by prayer than this world dreams of', yn aml, ond ai dyna gred a phrofiad aelodau'r eglwys? Os meddylir am weddïo fel 'sgwrsio â Duw' – yr ymdawelu yn ei bresenoldeb a'r ufuddhau i'w bwrpas – bydd y gwyrthiol yn medru digwydd. Yn hanes Dorcas, roedd ei chorff wedi marw, ond yn hanes pobl eraill efallai y bydd yr ysfa i fyw yn erydu neu fod argyhoeddiad wedi llesgáu. Mae gweddi fel bywhau'r hyn sy'n farwaidd ac adfer yr hyn sydd yn y broses o beidio â bod.

Bythefnos yn ôl, buom yn ystyried gweddïo fel rhan o waith naturiol eglwys, a phob mis Ionawr cynhelir cyfres o gyfarfodydd gweddi sy'n hyrwyddo undeb eglwysig. Pwysleisir nad unffurfiaeth yw undeb. Yn ein gweddïo gyda'n gilydd fel eglwysi, byddwn yn sylweddoli mai un teulu sydd, a theulu defosiynol Iesu yw hwnnw.

### Gweddi
Arglwydd pob gweddi, helpa ni i weddïo'n aml a chofio ein bod wastad yn dy gwmni di. Maddau i ni am droi at bopeth arall heb feddwl bod gennym y modd i adfywio a chryfhau drwy dy wahodd di i mewn i'n sefyllfa. Trugarha wrthym, ti sy'n wrandäwr gweddïau, a throi ein nos yn ddydd. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried
1 Beth sy'n debyg ac yn wahanol am fywhau Dorcas ac atgyfodiad Lasarus?

2 Beth fyddai amcan Luc wrth gynnwys hanes bywhau Dorcas yn Llyfr yr Actau?

3 Beth yw grym gweddi i chi?

4 A welwch fudd mewn gweddïo am Undeb Cristnogol, ac a yw'r wythnos yn cael digon o gyhoeddusrwydd a sylw? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng undeb ac unffurfiaeth eglwysi?

5 Eglwysi gwledydd lleiafrifol fydd yn llunio deunydd yr Wythnos Weddi gan amlaf; beth fyddech am i eglwysi Cymru ei nodi, pe byddai gwahoddiad felly yn dod i ni?

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 21 Ionawr am 7.30yh – Santes Dwynwen**
Ar drothwy Dydd Santes Dwynwen bydd Lisa Gwilym yn dathlu cariad yn ei holl ogoniant, o erddi rhamantus Plas Cadnant ar Ynys Môn. Cawn gyd-ganu rhai o'n hoff emynau a mwynhau perfformiadau hyfryd gan yr unawdydd Steffan Rhys Hughes a'r gantores gospel Nia Price.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 21 Ionawr, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Elin Owen, Bangor.

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 21 Ionawr, am 12yp**
Oedfa dan ofal Gethin Rhys, Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru.

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Llwybrau'r cof

Oes 'na rywun yn cofio'r Parchedig Harri Williams, gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Rhigos a Hirwaun am flynyddoedd maith? Un o'r Ffôr yn Eifionydd oedd o'n wreiddiol, ac os cofiaf yn iawn, yn Nhyddyn Sachau – lle prysur iawn bellach, am ei fod yn ganolfan arddio – y'i magwyd, er bod gwreiddiau'r teulu'n ymestyn i ardal Aberdaron. Ond treulio'i oes yng nghymoedd y de wnaeth Harri Williams yn gweinidogaethu'n ffyddlon.

Tua 1979 roedd cyfarfodydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr yn cael ei gynnal yn Hen Golwyn ac aelwydydd yn agor eu drysau, yn ôl yr arfer am flynyddoedd maith, i groesawu cynrychiolwyr. Ar y pryd roedd fy nhad yn weinidog ar Ebeneser, Hen Golwyn; Bethel, Penmaenrhos a Chapel Coffa, Cyffordd Llandudno, ac mae gen i gof byw iawn o'r gŵr addfwyn yma, Harri Williams – oedd yn un o'r cynrychiolwyr – yn aros ar ein haelwyd ni.

Rhyw fis neu ddau yn ôl, bûm yn gwasanaethu mewn angladd nai i Harri Williams ym Mlaenau Ffestiniog.

Diddorol hefyd yw bod yr amryddawn Rhydwen Williams, fu'n gymydog i Harri Williams, wedi cyfansoddi cywydd i'w goffáu. I mi mae'n werth craffu ar symlrwydd y geiriau a naturioldeb gweinidogaeth Harri, a gofyn i mi fy hun yn gyntaf cyn gofyn i eraill, lle rydw i arni?

**Iwan Llewelyn**

## Y Gweinidog

***I gofio'r Parchedig Harri Williams, Rhigos a Hirwaun***

Roedd ganddo'r syniad rhyfedda am ddynion –
Fe gredech yn siŵr ei fod yn breuddwydio
Wrth wrando arno'n eu brolio,
Dim ond bod yr hen lygaid bach ar agor
Fel ffenestri'n anwesu'r wawr.
Fe'u gwelai nhw wedi eu puro fel aur coeth,
Y twyllodrus a'r cecrus a'r cranc,
Ac yn disgleirio o rinwedd
Mor brydferth â'r enfys
A bontiai Rhigos a Hirwaun ar dro;
Yno'n glir heb fod yno o gwbl.
Edrychai ar drueiniaid,
Hen ac ifanc.
Nid fel un rhy ddiniwed i wybod yn well,
Ond fel un yn pelydru ei onestrwydd ei hun
I sefyllfaoedd yr einioes.
Ni phriodolai neb iddo ef
Effeithiolrwydd yn ffeiriau'r oes hon –
Ei wisg wylaidd a'i osgo.
Ei foneddigeiddrwydd a'i ddiniweidrwydd a'i wên,
Ei gonsarn am fugeilio'r fro
A chadw'i gyhoeddiad
Heb boeni am y bunt!

Hebryngodd y Gair
A'i wyneb yn welw yno
Wrth i'w anadl rewi ar ei wefus
A dim ond ei weddi i roi gwres.
Ond pan fyddai ef o gwmpas,
Rhyw fyd hyfryd oedd –
Fel petai'r afal o hyd ar y pren
A'r sarff wedi mynd i gadw dros byth
A dim ond daioni ein dewis!
Cymerasom ef yn ganiataol, serch hynny;
Sŵn ei droed ar y palmant,
Ei ddifrifwch a'i ddigrifwch a'i ddawn,
A'i lais ar lwyfan ac aelwyd.
Ond ynddo ef yr oedd y daioni
A wrthodwyd ac a anghofiwyd gennym,
Ac nid oes ond beirdd a phlant bach
Yn ei nabod a'i gydnabod yn awr.
Ei fawredd oedd arddangos i ni
Y diniweidrwydd hwn ar dir
Lle yr oedd bywyd yn chwilfriw
Wrth ein traed,
Yn rhwbio ysgwyddau a'r bobl.
Mae'r byd mor oer, meddai.
A pha ffordd arall i gadw'n gynnes?

**Rhydwen Williams**

# Dathlu'r Geni

## Wythnos cyn y Nadolig: Gofalaeth Glannau Ogwr

### Cinio Nadolig

Bu'r wythnos yn un hynod brysur. Dechreuodd gyda'n Cinio Nadolig ar ddydd Sul 17 Rhagfyr. Gan ein bod nawr mewn gofalaeth gydag eglwys y Tabernacl Pen-y-bont, dan arweiniad ein gweinidog y Parchg Dylan Rhys Parry, roedd ein cinio Nadolig yn ginio i'r ofalaeth. Arbrawf oedd cynnal y cinio ar ddydd Sul i fanteisio ar ginio Sul clwb golff y Grove ger Porth-cawl. Arbrawf a brofodd yn llwyddiant. Hyfryd, ar ôl y gwasanaethau bore Sul, oedd gweld ystafell y Grove yn llawn a phawb yn mwynhau cymdeithasu dros ginio blasus. Casglwyd £140 tuag at Apêl Ffynhonnau Byw Undeb yr Annibynwyr.

### Panto Nadolig – Ble mae'r Asyn?

Roedd ymarferion cyson wedi bod ers dros fis ar gyfer y panto Nadolig, *Ble mae'r Asyn*? Ar ôl gwaith caled daeth popeth i'w le ar gyfer perfformiadau cyhoeddus ar 20 a 21 Rhagfyr. Gyda help yr aelodau trawsnewidiwyd capel y Tabernacl Pen-y-bont ar Ogwr yn theatr ar gyfer yr achlysur.

Dyma ysgrifennodd Dylan yn ein Koinonia wythnosol am berfformiadau'r panto:

### Ble mae'r Asyn?

'Hoffwn ddiolch o galon i bawb ddaeth i weld *Ble mae'r Asyn?* ein drama Nadolig



eleni. Ond hoffem ddiolch yn fwy na hynny i bawb fuodd yn rhan o'r ddrama geni mewn unrhyw ffordd. Y rhai a fuodd wrthi tu cefn i'r llwyfan ac ar y llwyfan. Daeth yn agos i 300 o blant i gyd i weld y ddrama eleni a tua 100 o oedolion mewn 5 perfformiad. Dyma i chi 400 o bobl eleni sydd wedi clywed gwir ystyr y Nadolig. Mae'r holl waith caled o baratoi at y ddrama wedi bod yn llwyddiant, dyma beth yw cenhadaeth ar waith. Er gogoniant i Dduw.'

Ar ran yr ofalaeth carwn ddiolch i Dylan am yr holl waith wnaeth yn paratoi ar gyfer y panto. Ef oedd wedi paratoi'r sgript, gwneud y gwaith technolegol i gael lluniau a'r goleuadau i gyd-fynd â'r stori ar y ddau deledu mawr yn y capel, a'n cyfarwyddo, heblaw hefyd am fod yn Joseff. Diolch hefyd i Mari George am ei chymorth i Dylan ac am leisio'r hanes.

*parhad ar y dudalen gefn*

# Golygyddol

## Ymestyn allan



Mae llawer o bethau yn cael eu gosod ar frig agenda ein cyfarfodydd eglwysig a'n cyfarfodydd diaconiaid. Beth sydd yn y 3 uchaf dwedwch? Yr adeilad, sefyllfa ariannol, parcio neu dwymo'r adeilad efallai. Ond yr hyn bellach ddylai fod yw cenhadau lleol. Dylai hyn gael blaenoriaeth uwchlaw popeth arall. Afraid dweud ein bod mewn argyfwng ysbrydol. Nawr rhaid ymateb a gweithredu gan gychwyn gweithgareddau cenhadol enillgar.

### Plannu

Wrth ymweld ag eglwysi newydd Saesneg yn ddiweddar sylweddolais fod yna gynlluniau mawr ar droed i sefydlu achosion newydd yng Nghymru. Mae hyn yn digwydd yn barod ar hyd a lled y wlad. Mae mudiad anenwadol 100 Cymru wedi lansio ymgyrch i blannu 100 cynulleidfa newydd yn y 10 mlynedd nesaf. Gwych iawn yw gweld y weledigaeth hon ac mae angen i ni fod yn rhan o hyn ac nid yn bobl sy'n edrych i mewn o'r tu allan. Oes gennym ni syrff-fwrdd yn barod ar gyfer y don sy'n dod ynteu a fyddwn ni yn cael ein gadael ar ôl? Mae angen i'r enwadau traddodiadol fel Undeb yr Annibynwyr fod yn rhan o hyn. Yn gam neu'n gymwys mae eglwysi Saesneg yn mynd ati heb ymgynghori ag eglwysi eraill i blannu o'r newydd. Nid oes ganddynt ymwybyddiaeth o gydweithio – ar y cyfan – dim ond ymdeimlad bod Duw o'u plaid ac yn eu galw i ardal benodol ac mae ganddynt ffydd a hunan hyder rhyfeddol.

### Ifanc

Rhaid mynd heibio i weld datblygiadau Cristnogol newydd fel rhyw fygythiad i'n heglwysi ni. Natur gwaith Cristnogol yw ein bod i gyd yn rhan ohono ac yn dymuno llwyddiant i waith Iesu Grist pwy bynnag y mae Duw yn eu dewis i weithio trwyddynt a'u bendithio. Nid oes lle i genfigen na drwgdybiaeth. A heb os mae angen inni gefnogi pob arwydd o fywyd ac ymdrech gan Gristnogion ifanc yn ein plith. Nid eu condemnio a'u llesteirio. Mae Duw yn amlach na pheidio yn rhoi gweledigaeth newydd adnewyddol i Gristnogion ifanc. Onid dyna oedd y disgyblion cyntaf? Onid ifanc oedd arloeswyr hanesyddol Cristnogaeth yng Nghymru ym mhob cyfnod?

### Blaenoriaeth

Mae'n hanfodol nawr ein bod yn rhoi cenhadaeth fel blaenoriaeth yn eu holl weithgareddau. Onid dyma yw gorchymyn Iesu yn y Comisiwn Mawr? Wrth ddefnyddio'r gair cenhadaeth yma rwy'n golygu ennill pobl newydd sydd ddim yn credu yn Iesu i'r ffydd Gristnogol. Os nad yw hyn yn digwydd, nid oes dyfodol i'n heglwysi. Dim ond canu'r hen emynau yn ein blychau sgwâr, tyfu'n hen a darfod.

Mewn gwirionedd, rydym wedi peidio â chenhadu ac efengylu ers degawdau gan wneud y nesaf peth i ddim ond gweddïo yn achlysurol y bydd pobl newydd yn dod yn wyrthiol i'n cyfarfodydd. Ynghlwm wrth genhadu mae tri gwirionedd sylfaenol.

Duw sy'n dod a phobl i ffydd nid ni.

Rydym i gyd yn bechaduriaid ac angen Gwaredwr i'n cymodi gyda Duw. Os nad oes pechod nid oes angen Iesu Grist. Nid oedd angen iddo farw ar y groes dros ein pechodau ac nid oedd angen iddo atgyfodi. Ni ellir cenhadu heb yr ymwybyddiaeth ein bod yn golledig heb Iesu. (Marc 2: 17; Rhufeiniaid 5: 8; 1 Tim. 1: 15)

Iesu Grist yw'r unig Waredwr. Mae rhyw syniadau digon rhyfedd yn datblygu ymhlith rhai 'Cristnogion' mai un ffordd yw Iesu at Dduw ond bod ffyrdd eraill hefyd i gyrraedd y dwyfol. Os gwir hyn nid oes angen cenhadu Cristnogol. (Ioan 14: 6; Actau 4: 12)

Yr hyn sy'n ennyn brwdfrydedd cenhadol yw ein bod yn caru pobl cymaint fel ein bod am iddynt gael eu rhyddhau o bechod a'i ganlyniadau i fyw mew perthynas dragwyddol gyda Duw. A thrwy hynny gael bywyd newydd llawn cariad sy'n eu harwain i garu Duw a charu pobl eraill.

Os hoffech ymateb i unrhyw beth sydd yn yr erthygl olygyddol hon neu am awgrymu ffordd amgenach i'r dyfodol cysylltwch trwy tyst@annibynwyr.cymru

**Alun Tudur**

## CYFRES RHAGLEN YR UNDEB YN 'AGORIAD LLYGAD'

Cafodd y chwe sesiwn am 'Hanes yr Eglwys' a gynhaliwyd yn festri capel Heol Awst, Caerfyrddin o dan arweiniad y Parchg Guto Prys ap Gwynfor eu gwerthfawrogi'n fawr gan bawb a fu yno. Dywedodd Alun ac Olga Williams (*ar y chwith yn y rhes flaen*) iddynt ddysgu llawer a mwynhau'r anerchiadau a'r trafod wedyn. 'Roedd y ffeithiau gyda Guto ar flaen ei fysedd, ac yn cael eu cyflwyno mewn modd hyfryd ac agos atoch,' meddent. 'Fe brofwyd o'i wybodaeth drylwyr o'r Beibl hefyd wrth iddo ddyfynnu adnodau pwrpasol yn ystod ei atebion i gwestiynau a holwyd ar ôl ei anerchiadau. A dweud y gwir, buodd cynnwys y chwe sesiwn yn dipyn o agoriad llygad i ni.'

Trefnwyd y gyfres gan y Parchg Carwyn Siddall fel rhan o Raglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr. Fel y nodir yn *Y Tyst*, mae cyfres ryngweithiol gyffrous o dan yr un rhaglen newydd ddechrau, gyda'r ail sesiwn nos Lun nesaf yn yr amryw ganolfannau.



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Dathlu'r Geni – *parhad*

### Noson garolau blynyddol

Nos Wener 22 Rhagfyr cynhaliwyd noson o ganu carolau yn neuadd capel y Tabernacl Porth-cawl. Cafwyd gwasanaeth o ddarlleniadau, eitemau cerddorol a charolau traddodiadol. Diolch i Eluned Evans am wneud y trefniadau, i Liz Jones am gyfeilio, i bawb gymerodd ran ac i bawb ddaeth i gefnogi'r achlysur. Drwy werthiant tocynnau a chyfraniadau codwyd £240 tuag at Sandville, canolfan/elusen leol, sydd yn cynorthwyo'r rhai gydag anhwylderau sydd yn cyfyngu ar eu bywydau bob dydd. Wrth gwrs roedd rhaid manteisio ar y cyfle i gymdeithasu dros baned a danteithion Nadoligaidd i derfynu'r noson. Diolch i bawb fu yn paratoi ar ein cyfer.

**Tom Price**
Ysgrifennydd Tabernacl Porth-cawl





# Dathliadau Nadolig eglwys Hope-Siloh

Bu'n hyfryd gallu bod yn rhan o sawl gweithgaredd i ddathlu'r Nadolig yng nghapel Hope-Siloh eto eleni. Dechreuwyd y dathliadau gyda Ffair Nadolig y capel. Roedd y ddwy festri dan ei sang ar y bore dydd Sadwrn hwnnw. Yna cafwyd sawl dathliad, gyda'r clwb ieuenctid yn mwynhau noson gyri yn lleol, y Clwb Babanod yn croesawu Siôn Corn a'r Clwb Sgwrsio yn mwynhau dishgled i ddathlu'r Nadolig. Yn ôl yr arfer cafwyd gwledd o berfformio gan y plant a phobl ifanc yn nrama'r geni cyn iddyn nhw hefyd gael ymweliad gyda'r dyn pwysig ei hun – Siôn Corn – a chael parti yn y festri. Mae'n draddodiad bellach bod aelodau'r capel yn ymgymryd â'r swydd o gyflwyno neges y Nadolig mewn aml gyfrwng i weddill aelodau'r capel a chafwyd gwasanaeth bendithiol eto eleni yn eu plith. Daethpwyd a pharatoadau'r ŵyl i ben eleni gyda gwasanaeth golau cannwyll hyfryd ei naws, eto yng ngofal rhai o aelodau'r capel gyda mins pei a dishgled i ddilyn. Pa ffordd well i baratoi at yr ŵyl? Diolch i bawb am eu gwaith yn paratoi a'n perfformio.







*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*